

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
7 Gorffennaf 2022 ar-lein trwy zoom am 8.00 o'r gloch
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
7 July 2022 on-line via zoom at 8.00pm

Presennol/Present

Cyng/Cllr Myrddin James (Gadair/Chair), Gwilym Evans, Beryl Evans, Gwenfair Owen, Daniel Thomas a Cyng/Cllr Rhodri Evans

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng/Cllr Paul Rooke, Emyr Jones, Rhian Turner, Gerwyn Ebenezer & PCSO John Evans.

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / No one

Adroddiad yr Heddlu / Police Report

Ni dderbyniwyd adroddiad o'r heddlu. / No report was received from the Police.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Cytunwyd fod cofnodion mis Mehefin yn gywir ar gynnig Cyng Daniel Thomas ac eiliwyd gan Cyng Gwilym Evans. *The minutes for the June meeting were agreed as being correct by Cllr Daniel Thomas and seconded by Cllr Gwilym Evans.*

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Cytunwyd i gynnal sesiwn hyfforddi defnyddio peiriant diffib dechrau mis Medi, clerc i gysylltu a Mr Glyn Jones. / *It was agreed to hold a training session on the use of the defib machine at the beginning of September. Clerk to organise with Mr Glyn Jones.*
- Derbyniwyd llythyron yn datgan diddordeb yn y ddwy sedd wag ym mhlwyf Gwynfil, cytunwyd yn unfrydol i'r Clerc gysylltu ganddynt yn cynnig y swyddi i Ms Sarah Evans a Mr Dafydd Morse. Clerc hefyd i hysbysu'r penodiadau i'r Cyngor Sir Ceredigion. Ni dderbyniwyd unrhyw gais yn datgan diddordeb ym Mhlwyf Llanbadarn Odwyn / *Letters received from Ms Sarah Evans & Mr Dafydd Morse declaring an interest in the vacant seats in Gwynfil Ward, it was unanimously agreed that the Clerk contact both persons to offer them the seats, as well as informing the County Council of their appointment. No declaration of interest shown for the vacant seat in Llanbadarn Odwyn.*
- Trafodwyd y mater o methu talu allan o cyfrif banc Barclays a nodwyd fod y clerc yn cael llythyron cas iawn o'r cwmni Crwbin Quarries, Clerc yn cynnig talu allan o cyfrif ei hunan i ddod a'r mater i ben ond ni chaniateir hyn efo'r cynghorwyr. Trosglwyddwyd rhif ffôn Heather Price, Pennaeth Banc Barclays Cangen Llanbedr Pont Steffan i'r Clerc, gan ofyn iddi gynorthwyo ni gan fod y sefyllfa wedi mynd dros ben llestri o hir erbyn hyn / *Failure to use the Barclays Bank Account was still a massive issue and the Clerk was now receiving nasty letters from Crwbin Quarries. Clerk offered to pay from her own personal account to bring this issue to an end until the bank account was re-opened, but the Councillors refused to allow this. The Clerk was asked to contact Heather Price, Head of Barclays Bank, Lampeter Branch to ask for her assistance in resolving this matter.*
- Cyng Rhodri Evans i drosglwyddo rhif ffôn Alex Dawson cwmni BARCUD i'r clerc gael cysylltu ynglyn â'r posibilrwydd o ddefnyddio'r lawnt gwyrdd gyferbyn a Bro Gwynfil, at ddefnydd parcio ychwanegol yn Llangeitho. / *Cllr Rhodri Evans to forward the telephone number of Alex Dawson, BARCUD to the clerk to make contact regarding the green area opposite Bro Gwynfil, to be of possible additional parking area.*
- Cyng Daniel Thomas wedi mynychu'r cyfarfod efo Mr Paul Evans ar 15 Mehefin 2022 am 1.00 o'r gloch i drafod y broblem gyda'r goeden Ywen. Derbyniwyd cadarnhad nad oedd y goeden yn marw, trafodwyd y posibilrwydd i gael arbenigwr i asesu'r goeden. / *Cllr Daniel Thomas met with Mr Paul Evans on 15th June 2022 at 1pm to discuss the issues with the Yew Tree in Llangeitho. Mr Evans confirmed that the Yew tree was not dying and it was discussed to arrange for a specialist to assess the situation.*
- Diolchwyd i Mr Allen Westall, Llys y Wawr am drwsio'r mainc yn y parc / *A vote of thanks was given to Mr Allen Westall, Llys y Wawr for repairing the park bench.*
- Cyng Rhodri Evans wedi cysylltu â Cyngor Sir Ceredigion am gweleddd mynedfa Lon Tycroes/Ffoslas Penuwch, Cyngor Sir Ceredigion yn mynd i ysgrifennu at perchnogion y ddaear / *Cllr Rhodri Evans has contact Ceredigion County Council for their advice on the visibility aspect of Tycroes/Ffoslas Penuwch entrance and the County Council will contact the land owners.*

- Ysgol Rhos Helyg – Campws Llangeitho wedi prynu ac arddangos fflag uwchben yr Ysgol, Cyng Rhodri Evans i ofyn iddynt am yr infois i'r Cyngor Cymuned gael ei dalu / *Ysgol Rhos Helyg – Llangeitho Campus had purchased and displayed a flag outside the school, Cllr Rhodri Evans to ask for the invoice so that the Community Council could pay.*

Llyn Fanod

Cylchredwyd llythyr a dderbyniwyd gan Edward Harries i'r Cynghorwyr, lle bod y gost hyd yma yn £975 & TAW & Costau. Teimlai Cyng Daniel Thomas fod y cyfan wedi cyrraedd man na allwn fynd ymhellach. Cytunwyd i aros i Morris & Bates fynd nôl at Edward Harries efo tystiolaeth o'r perchnogaeth. Cyng Gwilym Evans i gysylltu â'r Wildlife trust i weld a oes ganddynt diddordeb. / *A letter that was received from Edward Harries was circulated to the Councillors which confirmed the cost to date to be £975 & VAT & Costs. Cllr Daniel Thomas felt as if all was coming to a dead end. It was agreed to wait for Morris & Bates to confirm his findings to Edwards Harries. Cllr Gwilym Evans to contact the Wildlife Trust to see what their interest would be.*

Cyfrifon/Accounts

- Cyflog y Clerc/Clerk Salary (06/22) £111.67
- Zoom (07/22) £14.39
- Crwbin Quarries £2664
- Allen Westall (Mainc y Parc/Park Bench) £40.72
- TTS Ltd (Potiau blodau / Flower Pots) £357.72

Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Beryl Evans

Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Gwilym Evans

Gohebiaeth/Correspondence

- Cais am gymorth ariannol wedi'u dderbyn oddi wrth y canlynol: / *Applications for financial support were received from the following:* Cylch Meithrin Llangeitho; Cruise Care Berevement; Citizens Advice; Papur Bro Y Barcud; dim gweithrediad / *no action.*
- Llythyr ar ddechrau tymor newydd yng ngwaith llywodraeth leol wedi'u dderbyn oddi wrth Ben Lake AS / *A letter at the start of a new term in local government was received from Ben Lake MP.*
- Cylchredwyd manylion am gyfle ariannu posibl, cytunwyd i geisio am y drafft cyntaf ar gyfer ariannu eitemau yn y parc i blant rhwng 7 – 11 oed, Cyng Beryl Evans a'r clerch i drefnu / *Details of Possible Funding Opportunities was circulated, it was agreed to submit the 1st draft as soon as possible for funding on park items for children between the age of 7-11, Cllr Beryl Evans & Clerk to arrange.*

Cyngor Sir Ceredigion County Council

- Cais Cynllunio wedi'u dderbyn ar gyfer y canlynol / *Planning application received for the following:*
 Ymgeisydd/Applicant: S Tideswell
 Safle/Location: Riversdale Hall, Llwynygroes, Tregaron, SY25 6SL
 Y Bwriad/The Intention: Construction of horse menage for exercise of own horses.
 Cytunwyd i gefnogi'r cais / *Agreed to support the application:*
 Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Beryl Evans
 Eiliwyd/Seconded: Cyng/Cllr Daniel Thomas
- Cyngor Sir Ceredigion yn mynd oddi amgylch y cymunedau yn glanhau arwyddion mewn i'r pentrefi. / *Ceredigion County Council were in the process of cleaning all signages into villages in Ceredigion*
- 2 sticer & 1 baner yn cael ei dosbarthu i bob plwyf i gynorthwyo hysbysebu Eisteddfod 2022 / *2 Stickers & 1 banner to be allocated to each community council within Ceredigion to advertise the Eisteddfod 2022*

Un Llais Cymru/One Voice Wales

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report.*

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Cytunwyd i ail-baentio'r wal oddi amgylch y goeden ywen, Cyng Daniel Thomas i archebu'r paent a chytunwyd i'r Cyngor Cymuned i dalu am y paent, gweddill y paent i fynd i baentio arosfan bws yn Stags Head / *It was agreed to re-paint the wall around the Yew Tree, Cllr Daniel Thomas to order the paint and it was agreed that the Community Council were to pay for the paint, excess paint to be used up to paint the bus shelter in Stags Head.*
- Soniwyd bod angen gwirfoddolwyr i gynorthwyo paentio tu allan i Neuadd Jiwbili ar fore Sadwrn os yn bosibl / *Volunteers were needed to assist in the painting of the outside of the Jiwbili Hall on Saturday morning if possible.*
- Soniwyd bod y lôn fach yn Llangeitho yn cael ei ail-tharmacio yn ystod wythnos yr Eisteddfod / *It was mentioned that the 'Lôn fach' lane was to be re-tarmacked during the Eisteddfod week.*

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y Cyfarfod nesaf yn Neuadd Jiwbili Llangeitho ar nos Lun 5ed o Fedi 2022 am 8 o'r gloch. / *The next meeting will be held at the Jiwbili Hall, Llangeitho on Monday 5th September 2022 at 8pm.*